Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Carno
# Carno
# Y Drenewydd
# Powys
# SY17 5LE

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Carno

Lleolir Ysgol Gynradd Carno ym mhentref Carno, yn awdurdod lleol Powys. Mae 43 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Addysgir y disgyblion mewn dau ddosbarth oed cymysg.

Dros dreigl tair blynedd, tua 2% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 18%. Daw tua hanner o'r disgyblion o gartrefi ble y siaredir Cymraeg ac mae pob disgybl o gefndir gwyn Prydeinig. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a'r dysgu ac anelir at sicrhau bod pob disgybl yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol wedi adnabod bod gan tua 2% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd llawer yn is na'r ganran genedlaethol o 21%.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Tachwedd, 2009. Ers 2014, daeth yr ysgol yn rhan o ffederasiwn ffurfiol gydag Ysgol Gynradd Llanbrynmair ac Ysgol Gynradd Glantwymyn o dan un pennaeth ac un corff llywodraethol. Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn 2016.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae arweinyddiaeth flaengar a chydweithrediad llawn y staff yn golygu bod ethos o welliant parhaus yn rhan annatod o wead yr ysgol. Mae gan yr arweinwyr a’r staff ddisgwyliadau uchel iawn i sicrhau lles a chynnydd pob disgybl, gan eu datblygu’n ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus, gwybodus a chreadigol. Mae’r athrawon yn cynllunio cyfleoedd cyson, ysgogol a diddorol i ddisgyblion, sy’n sicrhau eu bod yn ymroi’n llwyr i’w gwaith ac yn gwneud cynnydd ymhell uwchlaw’r disgwyl. Un o gryfderau eithriadol yr ysgol yw’r ffordd feistrolgar y mae’r athrawon yn gweu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gelfydd drwy’r cwricwlwm. Mae hyn yn arwain yn llwyddiannus iawn at wireddu safonau a darpariaeth ragorol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod gweithdrefnau olrhain cynnydd yn hylaw a bod athrawon yn gwneud defnydd effeithlon ohonynt i ymestyn y dysgu

A2 Ehangu’r cyfleoedd i ddisgyblion y cyfnod sylfaen wneud dewisiadau cyson ynglŷn â’u dysgu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos i’w lledaenu ar wefan Estyn ar ei gwaith mewn perthynas â cynllunio ar gyfer gwelliant ar draws y ffederasiwn a’r dull y mae’r ffederasiwn yn cyflwyno cwricwlwm diddorol i’w disgyblion.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau cyfathrebu a medrau mathemategol sydd o leiaf yn cyfateb i hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn. Mae disgyblion sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg da iawn yn gynnar. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn llwyddiannus ac yn cymhwyso eu medrau meddwl a datrys problemau yn gyson ac i lefel uchel ar draws ystod eang o feysydd dysgu. Mae medrau creadigol cadarn y disgyblion yn nodweddion cryf ac yn treiddio drwy ystod eang o'u gwaith.

Mae medrau siarad a gwrando rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gadarn. Maent yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd, ac yn ymateb i gyfarwyddiadau a chwestiynau yn hyderus. O oed cynnar, maent yn siarad yn aeddfed mewn amrywiol sefyllfaoedd gan ddefnyddio tafodiaith leol yn gwbl naturiol. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn esbonio'r hyn y maent yn ei wneud mewn tasgau yn glir ac yn hyderus, er enghraifft wrth ddisgrifio'r broses o greu animeiddiad o stori Rama a Sita. Caiff eu medrau cyfathrebu eu datblygu'n hynod lwyddiannus yng nghyfnod allweddol 2. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn gynyddol hyderus wrth ddwyn perswâd ar eu cyfoedion tra'n trafod y cynlluniau ar gyfer eu hysgol newydd yng Ngharno. Erbyn diwedd y cyfnod, mae medrau trawsieithu bron pob un yn gadarn dda. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus, gwybodus a chreadigol.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn iawn. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn mwynhau darllen ac yn ymateb yn hyderus i ystod eang o wahanol destunau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ddeallus ac yn aeddfed iawn yn y ddwy iaith. Ar frig yr ysgol, mae bron pob un yn defnyddio uwch fedrau darllen yn annibynnol i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau. Er enghraifft, maent wedi ymchwilio'n fanwl i nodweddion gwahanol ardaloedd a sefydliadau yng Nghymru.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r ffordd naturiol y mae disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu i safon uchel mewn ystod eang o bynciau a chyd-destunau. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu. Maent yn datblygu eu syniadau'n synhwyrol gan amrywio brawddegau ac atalnodi eu gwaith yn gywir. Mae'r disgyblion sy'n fwy abl yn llwyddo i ddefnyddio ystod ehangach o atalnodi, cymariaethau ac idiomau yn naturiol i gyfoethogi eu gwaith, er enghraifft mewn gwaith estynedig yn seiliedig ar stori 'Iâr Fach yr Haf'. Datblygir hyn yn llwyddiannus ar draws cyfnod allweddol 2 ac, erbyn diwedd y cyfnod, mae bron pob disgybl yn ysgrifennu i safon uchel mewn amrywiaeth o ffurfiau. Mae llawer yn creu brawddegau cymhleth yn llwyddiannus gan ddefnyddio geirfa ymestynnol mewn gwaith Saesneg i greu effaith, er enghraifft wrth ysgrifennu stori greadigol ac wrth ymateb i ystod eang o ddelweddau creadigol. Mae safon llawysgrifen yn ganmoladwy ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gyflwyniad a gwedd gwaith bron pob disgybl.

Mae medrau rhifedd y disgyblion yn gadarn dda ac maent yn eu cymhwyso'n gyson ac i safon uchel ar draws y cwricwlwm. Yn y cyfnod sylfaen, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o werth lle, siâp, mesur ac amser. Maent yn dehongli data yn gynyddol gywir ac yn ei gyflwyno mewn gwahanol ffurfiau, fel graffiau neu dablau, er enghraifft wrth gofnodi canlyniadau 'her milltir y dydd'. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un yn datrys problemau rhif yn hyderus, gan gymhwyso'r hyn y maent wedi ei ddysgu'n flaenorol mewn sefyllfaoedd newydd. Enghraifft nodedig o hyn yw'r ffordd y mae disgyblion hŷn y cyfnod yn cyfrifo sawl llong sydd ei angen i gludo pedair mil o deithwyr oddi ar draethau Dunkirk. Yn y dasg hon, mae mwyafrif y disgyblion sy'n fwy abl yn ystyried cyflymder y cwch wrth iddynt gyfrifo'r amser a gymerir i gwblhau'r fordaith yn gywir. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio data yn gynyddol gywir ac yn ei gyflwyno mewn gwahanol ffurfiau wrth gofnodi a chymharu tymheredd a glawiad cyfartalog mewn tair gwlad wahanol.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r ystod lawn o fedrau TGCh i gefnogi eu gwaith mewn meysydd dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau, bas data canghennog a phecynnau graffeg yn hyderus ac yn annibynnol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio TGCh yn fedrus ac yn annibynnol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ehangach. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng o safon uchel, nifer ohonynt gan ddefnyddio sgrin werdd.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, sy'n golygu eu bod yn frwdfrydig wrth eu gwaith ac yn awyddus i wneud eu gorau. Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio'n dda ac yn dyfalbarhau i gwblhau tasgau yn llwyddiannus. Maent yn deall sut i ddatrys unrhyw anawsterau sy'n eu hwynebu gyda'u gwaith trwy ddefnyddio dull cyson yr ysgol, sef "Meddwl, Mynegai, Mêts, Miss", sy'n golygu bod angen iddynt ddilyn y drefn honno cyn ildio. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i wella eu gwaith eu hunain trwy ymateb yn ddeallus i ddull yr ysgol o roi adborth, sef y system 'pinc sy'n plesio a gwyrdd sy'n gwella', er enghraifft. Mae llawer o'r disgyblion yn meddu ar hunanreolaeth dda wrth iddynt gofio a dilyn cyfarwyddiadau yn gywir, gan fwrw at eu gwaith yn syth. Maent yn llawn chwilfrydedd wrth holi cwestiynau er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o fywyd tylluanod, er enghraifft.

Mae bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol gan eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yno, a bod yr amgylchedd yn un gofalgar a chyfeillgar. Pan fo angen, mae'r disgyblion yn hyderus bod athrawon yn ymateb yn brydlon ac yn briodol i'w pryderon. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd yfed dŵr a bwyta'n iach ac effaith gadarnhaol ymarfer corfforol cyson i'w cadw'n heini. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn manteisio'n llawn ar yr holl weithgareddau chwaraeon sydd ar gael iddynt yn yr ysgol ac yn allgyrsiol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd e-ddiogelwch pan fyddant yn defnyddio'r we.

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda iawn. Wrth iddynt ryngweithio yn ystod gwersi ac amser chwarae, mae bron pob un yn gwrtais ac yn barchus tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae gofal disgyblion hŷn dros rai iau yr ysgol yn nodwedd amlwg a chadarnhaol iawn.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn, yn eu tro, yn awyddus ac yn barod i gymryd cyfrifoldebau ar amryw gynghorau'r ysgol. Mae'r 'Dewiniaid Digidol' a'r llysgenhadon chwaraeon yn weithgar yn eu rolau wrth gefnogi eu cyfoedion i wella eu medrau TGCh ac wrth drefnu gweithgareddau fel y 'filltir ddyddiol' i wella ffitrwydd eu cyfoedion. Maent yn gwerthuso effeithiolrwydd eu gweithgareddau trwy greu holiaduron i gywain barn eu cyfoedion, sy'n datblygu eu hyder a'u dealltwriaeth o bwysigrwydd cymryd cyfrifoldeb a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw ac eraill.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r cwricwlwm a ddarperir gan yr ysgol yn hynod effeithiol a chreadigol, ac yn datblygu medrau disgyblion ar draws yr holl feysydd dysgu yn systematig ac yn arbennig o lwyddiannus. Mae'r gweithgareddau cyffrous hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymroi'n llwyr i'w gwaith ac yn gwneud cynnydd ymhell uwchlaw'r disgwyliadau yn eu holl fedrau. Cyfoethogir y cwricwlwm yn effeithiol iawn drwy'r defnydd cyson a wneir o arbenigwyr, ymwelwyr ac ymweliadau. Er enghraifft, trefnwyd ymweliad gan gwmni theatr i addysgu'r disgyblion am fywyd person yn ystod yr Ail Ryfel Byd mewn modd dramatig, byw a diddorol iawn.

Mae'r athrawon yn cynllunio'n hynod greadigol lle mae pwyslais mawr ar ddatblygu ystod eang o fedrau disgyblion yn gyson ymhob agwedd o'r cwricwlwm. Nodwedd gref iawn yw'r ffordd feistrolgar y mae'r athrawon yn gweu'r cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion yn gelfydd trwy'r cwricwlwm, yn enwedig trwy weithgareddau creadigol fel y prosiect ar y thema 'Elfennau'. Yn ystod y prosiect hwn, elwodd y disgyblion o'r cyfleoedd arbennig o dda a gawsant i greu dawns a darnau o gelf, ac i gyfansoddi cerddi yn seiliedig ar y thema. Maent wedi cyhoeddi'r cerddi ac arddangos y celf mewn llyfr ac wedi defnyddio'r dawnsiau fel rhan o lansiad y llyfr. Mae hyn yn meithrin parch a balchder ymysg y disgyblion tuag at eu gwaith yn hynod effeithiol. Mae dulliau effeithiol y staff o gynllunio yn eu paratoi'n drwyadl ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru a datblygu disgyblion fel unigolion uchelgeisiol, hyderus a gwybodus. Mae hyn yn arfer dda o fewn yr ysgol.

Mae staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu amrywiol fedrau mewn sefyllfaoedd real iawn fel gweithgareddau entrepreneuriaeth, er enghraifft. Mae'r prosiectau uchelgeisiol hyn yn cael eu cyflawni yn llwyddiannus, fel 'Paned P'nawn Patagonaidd', 'Her y Cardiau Nadolig' a 'Lemonêd Ysgol Carno'. Mae hyn yn cyfoethogi'r profiadau i ddisgyblion ac yn cyfrannu'n werthfawr at ddatblygiad eu medrau mentergarwch, llythrennedd a rhifedd.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau gwyddonol disgyblion yn effeithiol iawn. Ceir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o elfennau gwyddonol, trwy arbrofion pwrpasol, er enghraifft wrth ddarganfod os yw maint a siâp yn effeithio ar ba mor gyflym mae troellwr yn disgyn.

Mae'r cyfleoedd cyfoethog i hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn rhan greiddiol a naturiol o holl waith yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn hollol naturiol drwy weithgareddau'r cwricwlwm, er enghraifft trwy ddarparu cyfleoedd niferus i ddisgyblion astudio gwaith artistiaid, cerddorion ac awduron Cymru yn rheolaidd.

Mae gan staff ymwybyddiaeth gref o egwyddorion y cyfnod sylfaen. Maent yn sicrhau bod cydbwysedd effeithiol rhwng gweithgareddau a gyflwynir o dan arweiniad staff ac eraill sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu. Mae hyn yn hybu annibyniaeth dda ymysg y disgyblion, er enghraifft wrth iddynt ddilyn cyfarwyddiadau i bwyso toes cyn creu tylluan ar gyfer arddangosfa sy'n seiliedig ar y goedwig. Er hyn, nid yw staff bod tro yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau rhydd mewn perthynas â'u dysgu.

Maent yn cynllunio amrediad eang a chyfoethog o brofiadau dysgu diddorol i ddisgyblion. Mae hyn yn arwain at addysgu hynod lwyddiannus. Trwy feithrin perthynas waith effeithiol iawn gyda'r disgyblion, mae staff yn creu amgylchedd dysgu cefnogol ac ysgogol sy'n sicrhau bod pob disgybl yn cael ei herio'n llwyddiannus. Gwneir defnydd effeithiol iawn o adnoddau'r ysgol i gyfoethogi hyn. O ganlyniad, mae'r addysgu yn cymell diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion yn eu dysgu, ac yn sicrhau eu bod yn ymroi'n llawn i'w tasgau. Mae cyflwyniadau athrawon yn ddiddorol, yn ymarferol ac yn herio rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae athrawon a chymorthyddion yn holi'n fedrus i ymestyn dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion, ac yn eu herio i feddwl a rhesymu eu hymatebion ar lefel uchel. Mae staff yn modelu iaith lafar raenus, sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar fedrau llafar Cymraeg y disgyblion.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig effeithiol iawn i ddisgyblion er mwyn iddynt ddeall pa mor dda y maent yn cyflawni a beth sydd angen iddynt ei wella. Ar frig yr ysgol, mae'r drafodaeth aeddfed sy'n bodoli rhwng athro a disgybl yn cyfrannu'n llwyddiannus at lywio'r camau nesaf yn eu dysgu. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith a gwneud gwelliannau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned deuluol, groesawgar a Chymreig y mae pob disgybl yn falch i fod yn rhan ohoni. Mae'r berthynas waith effeithiol sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r athrawon yn nodwedd arbennig o waith yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at yr agweddau cadarnhaol sydd gan y disgyblion at eu gwaith ac at naws gynhwysol yr ysgol.

Mae'r athrawon yn adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar ac yn cynnig darpariaeth bwrpasol iddynt. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun datblygu unigol, sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol a thargedau addas a mesuradwy. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu'n effeithiol gyda'r disgyblion, yr athrawon a'r rhieni, sy'n sicrhau bod ganddynt berchnogaeth ohonynt. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cyflawni'n dda yn eu medrau llythrennedd a rhifedd ac yn gwneud cynnydd cyson dros amser.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau olrhain cynnydd priodol sy'n fodd i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i athrawon adnabod anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion, ac i'w cynorthwyo i ddarparu'n briodol ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn gwneud defnydd digon craff o'r data sy'n deillio o'r gweithdrefnau hyn. Maent, yn hytrach, yn dibynnu gormod ar eu mympwy i'w cynorthwyo i osod targedau a theilwra gweithgareddau ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfoethog iawn i ddisgyblion feithrin hunanhyder a gallu mynegiannol a chreadigol. Mae'r defnydd effeithiol a wneir o artistiaid ac ymwelwyr rheolaidd i'r ysgol yn sicrhau bod y disgyblion yn derbyn cyfleoedd i ymestyn eu dychymyg a chyfrannu'n hyderus i waith tîm. Enghreifftiau nodedig o hyn yw'r cydweithio a ddigwyddodd i greu 'rap' i hyrwyddo Siarter Iaith yr ysgol, a'r gweithgareddau niferus a diddorol a ddeilliodd o'r prosiect 'Elfennau'.

Mae'r ymweliadau niferus a phwrpasol, fel ymweliad â fferm wynt Tir-Gwynt a'r 'Lle Celtiaid', yn sicrhau bod dealltwriaeth y disgyblion o'u diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach yn gynhwysfawr. Yn sgil hyn, mae'r disgyblion yn datblygu'n aelodau llawn o'u cymuned a'r byd o'u cwmpas.

Mae'r ethos cynhwysol sy'n bodoli yn sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfleoedd cyfoethog i fod yn aelodau o'r amrywiol gynghorau, i leisio'u barn ac i gynnig syniadau am fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r elfen hon o waith yr ysgol yn datblygu'n dda ac yn cael ei adlewyrchu gan yr amrywiaeth o arddangosfeydd lliwgar sy'n dangos gweithgarwch prysur y disgyblion mewn mentrau fel codi arian i elusennau lleol, ymysg eraill.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta, yfed a byw'n iach. Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon amrywiol yn sicrhau bod eu datblygiad corfforol a ffitrwydd yn datblygu'n dda.

Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn dda trwy gyfrwng gwasanaethau ysgol gyfan sy'n rhoi pwyslais ar werthoedd fel gonestrwydd, goddefgarwch a pharch at gyd-ddyn. Mae dealltwriaeth y disgyblion o hawliau plant yn cael eu meithrin yn syml ond yn effeithiol trwy gyfrwng gweithgareddau 'Harri Hawliau' sy'n ymddangos mewn lleoedd gwahanol ar hyd a lled yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae arweinyddiaeth flaengar y pennaeth, y penaethiaid cynorthwyol a'r llywodraethwyr, law yn llaw â chydweithio cryf y staff, yn golygu bod buddion amlwg i drefniant ffederasiwn ysgolion Carno, Glantwymyn a Llanbrynmair. O ganlyniad, mae ethos o welliant parhaus yn rhan annatod o waith yr ysgolion, sy'n arwain at safonau a darpariaeth sydd o leiaf yn dda a chyda nodweddion amlwg o ragoriaeth ar draws y ffederasiwn cyfan. Trwy strwythurau arwain a rheoli clir a chyfrifoldebau tryloyw i'r staff, mae pawb o fewn y ffederasiwn yn gweithio'n ddiwyd i gyflawni gweledigaeth gytûn. Mae hyn yn seiliedig ar godi safonau a sicrhau darpariaeth addysg o'r radd flaenaf i ddisgyblion yr ysgolion. Mae rhannu arbenigeddau staff, arferion da ac adnoddau, yn nodweddion effeithiol o'r ffederasiwn. Enghreifftiau nodedig o hyn yw'r gwaith y mae'r arweinwyr wedi ei wneud er mwyn cryfhau rôl arwain cydlynwyr pwnc yr ysgolion. Mae'r cydlynwyr bellach yn chwarae rhan greiddiol wrth gyfrannu at hunanwerthuso'r ddarpariaeth ac arwain gwelliannau yn eu meysydd cyfrifoldeb ar draws ysgolion y ffederasiwn. Trwy hyn, mae arweinwyr yn sicrhau bod y cwricwlwm a'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau yn hynod ddiddorol ac yn cynorthwyo pob disgybl i wneud cynnydd uchel yn gyson.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gynhwysfawr o ansawdd y ddarpariaeth ac o safonau.  Trwy ymweld â'r ysgolion yn rheolaidd i graffu ar ansawdd ac wrth dderbyn adroddiadau cynnydd manwl gan y pennaeth, maent yn adnabod cryfderau'r ysgolion a'r meysydd i'w gwella yn drwyadl.  Mae'r is-bwyllgor cwricwlwm yn fforwm effeithiol i arfarnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth gan ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn llwyddiannus.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn rhagorol.  Mae'r adroddiadau hunanwerthuso yn ddogfennau gonest sy'n amlygu cryfderau a meysydd i'w gwella yn yr ysgolion yn fanwl.  Maent yn cynnwys sylwadau treiddgar sy'n deillio o dechnegau cadarn o gasglu tystiolaeth.  O ganlyniad, mae'r weithdrefn hunanwerthuso yn un sy'n creu gwerthusiadau dilys a chredadwy am ansawdd y ddarpariaeth, safonau ac effaith yr arweinyddiaeth.

Trwy ystyriaeth ofalus, sy'n cynnwys mewnbwn gan aelodau'r uwch dîm rheoli a'r staff, mae'r arweinwyr yn defnyddio deilliannau'r weithdrefn hunanwerthuso yn effeithiol iawn i greu blaenoriaethau synhwyrol o fewn cynllun gwella trefnus.  Mae nifer y blaenoriaethau yn hylaw ac mae adnoddau cyllidol ac amser staff yn cael eu clustnodi'n synhwyrol er mwyn eu cyflawni'n llwyddiannus.  Mae'r modd y mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y blaenoriaethau hyn yn cael eu cwblhau yn rhagorol. Maent yn ymrwymo targedau rheoli perfformiad y staff at gwblhau'r blaenoriaethau yn fedrus gan roi cyfleoedd effeithiol iawn iddynt adnabod beth yw eu cyfraniad nhw i'r broses wella.  Mae hyn yn hybu perchnogaeth ac atebolrwydd y staff i fagu syniadau ynglŷn â sut i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau yn effeithiol.  Mae 'adroddiadau effaith' y pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn amlygu'n glir y cynnydd a wneir yn erbyn cyflawni'r blaenoriaethau yn effeithiol iawn.  Mae hyn yn sicrhau bod arweinwyr a staff yn ymwybodol yn rheolaidd o raddfa'r cynnydd, gan addasu cynlluniau gwella yn ôl yr angen.  O ganlyniad, mae hanes llwyddiannus gan yr ysgolion o wella eu darpariaeth a chodi safonau ym mron pob un flaenoriaeth dros nifer o flynyddoedd.

Mae cyllidebau'r ysgolion yn cael eu rheoli yn effeithiol ac mae grantiau penodol, fel y grant datblygu disgyblion, yn bodloni anghenion disgyblion yn briodol, er enghraifft i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd.  Mae'r arweinwyr yn rheoli eu hadnoddau, gan gynnwys adnoddau dynol, yn fedrus gan olygu y gallant gyflawni mwy gyda'i gilydd fel ffederasiwn nag y gallent fel ysgolion unigol.  Mae'r modd y mae'r ysgolion yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a darparu profiadau eang i ddisgyblion, ac yn cynnal a gwella deilliannau a darpariaeth y Gymraeg yn enghreifftiau diweddar a llwyddiannus o hyn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/01/2019